

LEWIS, HENRY (1889 - 1968), ysgolhaig Cymraeg a Cheltaidd, ac Athro prifysgol

Enw: Henry Lewis
Dyddiad geni: 1889
Dyddiad marw: 1968
Priod: Gwladys Lewis (née Thomas)
Rhiant: William Lewis
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: ysgolhaig Cymraeg a Cheltaidd, ac Athro prifysgol
Maes gweithgaredd: Addysg; Ysgolheictod ac leithoedd
Awdur: David Myrddin Lloyd

Ganwyd 21 Awst 1889, mab ieuangaf William Lewis, o Ynystawe, Morgannwg. O ysgol sir Ystalyfera aeth i Goleg y Brifysgol Caerdydd lle y graddiodd yn y Gymraeg, ac yna i Goleg Iesu, Rhydychen, i astudio wrth draed yr [Athro Syr John Rh s.](#) Enillodd raddau M.A. a D.Litt. (Cymru). Dechreuodd ei yrfa fel athro yn ei hen ysgol yn Ystalyfera ac wedyn yn ysgol sir Llanelli. Yn ystod Rhyfel Byd I gwasanaethodd yn Ffrainc fel rhingyll yn y Gwarchodlu Cymreig ac fel ail-isgaptin gyda'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig. O 1918 hyd 1921 bu'n is-ddarlithydd yn adran y Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd, a daliodd gadair y Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol, Abertawe o'i gychwyniad yn 1921 nes iddo ymddeol yn 1954. Yn 1921 hefyd y priododd â Gwladys, merch ieuangaf William Thomas, o Dreorci, a bu iddynt ddwy ferch.

Anodd yw hi heddiw ddirnad yr anawsterau a oedd yn ffordd astudio'r iaith Gymraeg a'i llên pan sefydlwyd cyrsiau gradd yn y Gymraeg. Ymhlith y dyrnaid bach o ysgolheigion a weddnewidiodd y sefyllfa trwy olygu llawer o'r testunau hanfodol, gan eu dehongli a manylu ar ystyron geiriau, ac ar gystrawen, fe saif H. L. yn y rheng flaenaf - gwaith a wnaed yn gyfochrog â chynnal adran o'r brifysgol gyda chymorth un neu ddau yn unig o ddarlithwyr. Dechreuodd mor gynnar ag 1921 ar gyhoeddi cyfieithiadau Cymraeg Canol o destunau Lladin : Darnau o'r Efengylau (*Cymmrodor*, 31), *Chwedleu seith doethon Rufein* (1925), *Delw y byd* (1928, cywaith gyda Pol Diverres), ac yn bennaf *Brut Dingestow* (1942), gyda rhagymadrodd gwerthfawr iawn i astudwyr cyfieithu i'r Gymraeg o'r Lladin. Yn gynnar iawn yn ei yrfa hefyd bu'n golygu a dehongli gwaith beirdd yr oesoedd canol. Ei ddau gyfraniad mwyaf arbennig yn y maes hwn yw ei waith ar lolo Goch ar gyfer *Cywyddau lolo Goch ac eraill* (1925 ac 1937), a *Hen gerddi crefyddol* (1931), a oedd yn llafur arloesol ar adran bwysig o waith y Gogynfeirdd. Golygodd hefyd rai testunau o gyfnod y Dadeni megis *Hen gyflwynadau* (1948), a rhai diweddar fel *Llanwynno*, [Glanffrw](#) (1949), *Cydymaith yr hwsmon*, [Hugh Jones](#), Maesglasau (1949) a *Morgannwg Matthews Ewenni* (1953).

Ond i ddychwelyd at ei brif feysydd, paratôdd gydag [Elizabeth J. Louis Jones](#) y *Mynegai i farddoniaeth y llawysgrifau* (1928), ar ôl golygu'r flwyddyn flaenorol gynnwys llawysgrif Peniarth 53. Y mae Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd (cylchgrawn a olygodd ei adran iaith a llên o 1950 hyd 1964), ac i raddau llai gylchgronau ysgolheigaidd eraill yn frith tros gyfnod hir o'i erthyglau a'i nodiadau sylfaenol eu pwys ar iaith a llên o gyfnod y Cynfeirdd a'r glosau cynnar ymlaen, ac yn arbennig ar forffoleg a chystrawen, pynciau yr ymdrinir â rhai ohonynt hefyd yn ei lyfr *Datblygiad yr iaith Gymraeg* (1931), ei ddarlith Syr John Rh s *The Sentence in Welsh* (1942), a'i astudiaeth *Yr elfen Ladin yn yr iaith Gymraeg* (1961).

Astudiodd lawer ar y Gymraeg yn ei chyd-gysylltiadau, fel y gwelir yn *Llawlyfr Cernyweg Canol* (1928, 1946), *Llawlyfr Llydaweg Canol* (1922, 1935 ac 1966 - yr olaf gyda chydweithrediad J.R.F. Piette), ac yn anad unlle yn ei gywaith â Holgar Pedersen yn cyfieithu ac yn ychwanegu at gampwaith hwnnw, sef y *Vergleichende Grammatik der Keltischen Sprachen*, i gynhyrchu *A Concise Comparative Celtic Grammar* (1937, ac yn helaethach yn 1961).

Yn gynnar yn ei yrfa bu H. L. yn un o olygyddion ' *Cyfes y Werin a'r Brifysgol* ', ac yr oedd ganddo law yng nghyfieithu *Brenin yr ellyllon* (Gogol) ar ei chyfer. Yr oedd yn aelod o bwyllgor golygyddol *Geiriadur Prifysgol Cymru*, a pharatôdd y *Collins-Spurrell Welsh dictionary* (1960). Ymhlith ei orchwylion eraill bu'n cymryd rhan yn niwygio *Caniedydd yr Annibynwyr Cymraeg*, a diwygio orgraff *Beibl y plant* (1929), *Y Testament Newydd* (1936), *Y Beibl* (1955), a'r *Apocrypha* (1959). Cyfieithodd amryw o adroddiadau'r Llywodraeth, a chomisiynau, etc., gan gyfrannu'n fawr at godi safon Cymraeg cyfieithiadau o'r fath. Bu'n aelod o amryw fyrdau cyhoeddus, pwyllgorau a chymdeithasau gwirfoddol : i enwi rhai ohonynt yn unig - Cyd-bwyllgor Addysg Cymru, cyngor Coleg Harlech (bu'n gadeirydd), clerc a Warden Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru, is-lywydd Cyngor Llyfrgell Genedlaethol Cymru, aelod anrhydeddus o'r Royal Irish Academy, is-lywydd o Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion. Gwnaethpwyd ef yn C.B.E. yn 1954, ac anrhydeddwyd ef â gradd LL.D. gan Brifysgol Cymru a D.Litt.Celt. gan Brifysgol Genedlaethol Iwerddon. Bu farw 14 Ionawr 1968.

Awdur

David Myrddin Lloyd, (1909 - 1981)

Ffynonellau

Who was who?

E. Bachellery yn *Études Celtiques*, 12 (1968-9)

B. B. Thomas yn *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 27 (1971), 121-35

Ilyfryddiaeth gan D. Ellis Evans yn *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, 10, 144-52

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Henry Lewis](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [110428449](#)

Wikidata: [Q5724892](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

